

DOLEN Y TAB – 39

22–23 Ionawr 2021

OEDFA RITHIOL 24 IONAWR

A hithau'n ail Sul yr Wythnos Weddi am Undod Cristnogol, byddwn yn cael cwmni'r Parchedig Gethin Rhys i gyflwyno'r Myfyrdod. Llywydd yr oedfa fydd Kathryn Gwyn, gyda chyfraniad ar y piano gan Eleri Huws.

YR OEDFAON NESAF

Ionawr

31 Emlyn Davies

Chwefror

7 Pentref Pentyrch

14 Y Parchedig Aled Edwards

Hefyd ar 24 Ionawr . . .

11.00 S4C Oedfa Dechrau Canu Dechrau Canmol

Yn cael ei harwain gan y Parchedig Aled Lewis Evans, Wrecsam

12.00

Oedfa Radio Cymru

Sgwrs gyda Rhian Lineker, Caerdydd

12.30 Radio Cymru

Bwrw Golwg gyda John Roberts

E-fwletin Cristnogaeth21 newydd i'w weld bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

DYMUNIADAU GORAU

Estynnwn ein dymuniadau gorau i Bethan ac Iwan Griffiths, Tycanol, Pentyrch a'u merch Manon fu'n dioddef o'r Covid cyn y Nadolig. Da clywed eu bod yn gwella o'r aflwydd erbyn hyn.

Apêl

Os oes rhywrai fyddai'n fodlon cyfrannu at oedfaon 2021, plis wnewch chi gysylltu gyda Geraint Rees. Mae angen pob talent arnom i gynnal y llif o amrywiaeth ar gyfer Suliau gweddill y flwyddyn.

Diolch yn fawr.

RHAGOR O'R BWRDD

Un o'r prif faterion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Ionawr o'r Bwrdd oedd yr ohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth Dyfrig Rees, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, yn cyflwyno'r rhaglen Arloesi a Buddsoddi a lansiwyd gan yr Undeb yn ddiweddar. Efallai y bydd rhai ohonoch yn cofio i ni gyfeirio at bosibiliadau'r cynllun hwn yn rhifyn 34 o *Dolen y Tab*. Cytunodd y Bwrdd fod y cynllun yn cynnig cyfle gwych i ni yn y Tabernacl werthuso nid yn unig yr hyn ydym yn ei gyflawni fel eglwys ar hyn o bryd, ond hefyd i ystyried a ddylem sefydlu cynlluniau newydd. Gan fod hwn yn fater y bydd angen ei wyntyllu'n drylwyr, gan roi ystyriaeth deg i nifer o awgrymiadau, cytunwyd i wahodd criw bach i lunio rhaglen o gyfarfodydd fyddai'n rhoi cyfle i'r aelodau wrando ar gyflwyniadau gwahanol a chyfrannu at y drafodaeth. Cyhoeddir rhagor o fanylion yn rhifyn Ionawr o *Tafod y Tab* fydd ar gael yn ddigidol yn unig cyn diwedd y mis.

RHANDIROEDD

Estynnir gwahoddiad i aelodau o'r Tabernacl roi cynnig am un o'r lleiniau newydd sydd ar gael bellach yn rhandir y capel, yn dilyn yr holl waith a wnaed i gymhennu'r tiroedd. Mae'r cynnig hwn wedi ei gyfyngu yn y lle cyntaf i aelodau'r capel yn unig, ond os na ddangosir diddordeb ymhlith yr aelodau yna fe estynnir y gwahoddiad i'r gymuned ehangach ym mhentref Efail Isaf.

Os oes gennych ddiddordeb, neu i gael rhagor o fanylion, cysylltwch naill ai gydag Emlyn 'Pens' Jones (pens37@outlook.com / 07881 501137) neu Mike West (mikealynwest@yahoo.co.uk / 07974 186596).

TAFOD Y TAB TREFNIADAU NEWYDD

Dan y cyfyngiadau presennol, penderfynwyd nad oedd yn ymarferol i ddosbarthu copiâu o *Tafod y Tab* i gartrefi'r aelodau ac felly cyhoeddiad digidol yn unig fydd rhifyn mis Ionawr. Ymddiheurwn am hyn, ond gobeithiwn ddychwelyd i'r drefn arferol erbyn rhifyn yr haf. Yn sgil y penderfyniad hwn, mae'r dyddiad cau i dderbyn adroddiadau a lluniau wedi ei ymestyn hyd at **ddydd Iau 28 Ionawr**. Dylid anfon unrhyw gyfraniadau at Gwilym ac Eleri (gehpengwern@yahoo.co.uk) / 07710 237327 / 01443 225205. **Diolch.**


Peidiwch dweud wrth y...

Toc wedi 11 o'r gloch bob nos ers canol Rhagfyr, rwyf wedi bod yn crwydro dros 100 milltir i'r de-ddwyrain o'm cartref i ymweld â dinas hynafol Caersallog (Salisbury) gan anwybyddu pob rheol a gorchymyn Llywodraeth Cymru. Wrth lwc, nid yw fy nheithiau wedi cael eu rhwystro gan Heddluoedd De Cymru, Gwent, Avon & Somerset na Wiltshire. Mae'n rhyfedd i mi ddewis anelu am leoliad nad oeddwn wedi bod yno erioed o'r blaen, a heb wybod fawr ddim am y lle chwaith, heblaw mai 123 metr yw uchder meindwr yr eglwys gadeiriol yn ôl swyddogion cudd Putin! Ond peidiwch â dweud wrth yr heddlu – wedi'r cyfan, rwy'n siŵr bod pob un ohonoch chithau hefyd wedi bod yn dyheu am y rhyddid i grwydro tu hwnt i'ch milltir sgwâr.

Mewn gwirionedd, ymweliadau nosweithiol rhithiol â'r ddinas fu bob un ohonynt, a hynny trwy gyfrwng y nofel hanesyddol *Sarum* gan Edward Rutherford. Dyma glamp o nofel 1,344 tudalen sy'n olrhain hanes y ddinas o oes yr iâ hyd at yr 1980au. Trwy olrhain bywydau saith o deuluoedd dychmygol o genhedlaeth i genhedlaeth, a gwau eu hynt a'u helynt yng nghyd-destun cyfnodau hanesyddol arwyddocaol, llwyddwyd i lunio nofel gwbl ysgubol. Does dim syndod bod y gwerthiant ers ymddangosiad yr argraffiad cyntaf yn 1987 dros ddwy filiwn o gopïau.

Erbyn i mi ddod i ddiwedd y bennod gyntaf, roeddwn yn gwbl sicri i mi gael benthycy cyfrol fyddai'n ddihangfa berffaith rhag y newyddion diweddaraf am y pandemig a thrafferthion eraill ein dyddiau gofidus ni. Roedd hyn yn arbennig o wir yn y rhan honno o'r stori sy'n canolbwyntio ar hanes arwrol ail-godi'r eglwys gadeiriol ar safle newydd yn y drydedd ganrif ar ddeg.

O ran maint ac ysblander yr eglwys ac uchder y meindwr does dim rhyfedd bod Rutherford, ac yntau'n un o frodorion Caersallog, yn meddwl y byd o'r adeilad eiconaidd hwn. Ceir tystiolaeth glir o hynny nid yn unig o'r sylw a roddir i'r adeilad yn y nofel, ond hefyd am iddo gysegru'r llyfr i'r rhai a'i hadeiladodd ac i'r sawl sydd yn ceisio diogelu'r meindwr heddiw.



Y llynedd, roedden ni'n dathlu 150 o flynyddoedd ers ail-adeiladu Capel y Tabernacl yn 1870, tra yn yr un flwyddyn roedd eglwys gadeiriol Caersallog hefyd yn nodi bod 800 mlynedd wedi mynd heibio ers iddyn nhw ddechrau ail-adeiladu'r eglwys yno – gwaith na chafodd ei gwblhau am gan mlynedd arall.



Ar un olwg, does fawr ddim i'w weld yn gyffredin rhwng y ddau adeilad. Mae un yn denu ymwelwyr wrth y degau o filoedd o bob cwr o'r byd yn flynyddol, tra bod y llall yn enghraifft arall o'r blychau 'sgwâr afrosgo trwm, yn foel, ddiramant hyd y cwm' yn ôl disgrifiad T. Rowland Hughes o gapeli anghydfurfiol Cymru yn ei gerdd 'Blychau'. Ond, serch hynny, yr un oedd y cymhellion a'r un oedd yr aberth wrth godi'r addoldai hyn, sef i fawrygu gogoniant Duw ac i ledaenu newyddion da yr efengyl o fewn eu cymunedau.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, rydym wedi bod yn dystion i elfen arall sy'n gyffredin rhyngddynt, sef eu hymateb ymarferol yn wyneb y pandemig. Mae pob un ohonom yn ymwybodol o ffrwyth ymdrechion Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol y Tabernacl, ac ymateb yr aelodau a chyfeillion, i gynorthwyo'r trigolion anghenus yn ein cymuned yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys cyflwyno tunelli o ddillad a nwyddau i'r digartref dros y Nadolig. Yna, ar ddechrau'r wythnos hon, fe agorwyd drysau'r eglwys gadeiriol yng Nghaersallog led y pen – nid i gynnal y gwasanaethau arferol ond i hwyluso'r dasg o roi'r brechlyn i drigolion y ddinas. Rwy'n siŵr y bydd Edward Rutherford yn ymfalchïo'n fawr o glywed am hyn.

Neithiwr, wrth ail-afael yn Sarum, roeddwn wedi cyrraedd y flwyddyn 1348 – Blwyddyn y Pla Du, y pla gwaethaf yn hanes y byd pan laddwyd degau o filiynau o bobl. Felly fe welais nad oedd modd mewn gwirionedd i mi ddianc yn gyfan gwbl rhag gofidiau'r Cofid wrth deithio i Gaersallog bob min nos.

[Carwn ddiolch i Chris Ashman, Ffordd Dewi Sant, Meisgyn am fy nghyflwyno i waith Rutherford ac am gael benthycy ei chopi hi o'r nofel *Sarum*.]

Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: gehpengwern@yahoo.co.uk / 07710 237327 / 01443 225205.